
Ystyr lliwiau a defnydd Hetiau De Bono

| | |
|---|---|
|  | Mae'r het wen yn cynrychioli GWYBODAETH. Gellir ei defnyddio er mwyn nodi pa ffeithiau, gwybodaeth, data maen nhw'n ei wybod ar ôl darllen testun |
|  | Mae'r het goch yn cynrycholi teimladau, greddf ac emosiynau, mae'n annog y dysgwyr DDATBLYGU A DEHONGLI.<br>Gellir gofyn cwestiynau tebyg i:<br>Sut wyt ti'n teimlo ar ôl darllen…<br>Beth yw teimladau'r awdur… |
|  | Mae'r het ddu'n cynrychioli beirniadaeth negyddol  ac yn annog y dysgwyr i DDEHONGLI A GWERTHUSO<br>Gellir gofyn cwestiynau tebyg i:<br>Pam nad yw'r darn yn ddibynadwy?<br>Pam nad yw hwn yn llwyddo? |
|  | Mae'r het felen yn cynrychioli manteision, gwerth a chryfderau ac yn annog y dysgwyr i DDEHONGLI A GWERTHUSO<br>Cwestiynau y gellir eu gofyn yw:<br>Sut mae'r hysbyseb hwn yn llwyddo?<br>Beth yw cryderau'r testun?<br>Pa bethau mae'r awdur yn eu gwneud yn llwyddiannus er mwyn cyflawni'r bwriad? |
|  | Mae'r het werdd yn cynrychioli creadigrwydd, syniadau newydd a'r gallu I ragfynegi. Mae'n annog y disgyblion i DDATBLYGU syniadau<br>Gellir gofyn cwestiynau tebyg i:<br><br>Beth os…? Pe baen ni'n…? Sut fyddet ti? Beth fyddai'r cam nesaf? Pa ffordd arall fyddet ti'n ei defnyddio i gyflwyno'r testun? |
|  | Mae'r het las yn cynrychiol'r darlun cyflawn a'r elfen fetawybyddol<br>Gellir gofyn cwestiynau tebyg i:<br><br>Eglura sut y dest ti i'r canlyniad? Crynhoi? Beth yw prif bwrpas? Aralleiria<br>Pa gasgliad wyt ti wedi dod iddo ar ôl darllen y testun? Pam wyt ti wedi dewis? Sut y gwnest ti benderfynu hyn? |